# Diweddariad Polisi'r UE (EU2011.03):

# Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

## Diweddarwyd ar: 20 Gorffennaf 2011

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

Ar 13 Gorffennaf, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd becyn o gynigion ar gyfer moderneiddio Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE [1] gyda'r bwriad o gytuno arnynt er mwyn iddynt **ddod i rym ar 1 Ionawr 2013**. Ym mis Tachwedd 2011, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynigion ar gyfer **cronfa forol a physgodfeydd Ewropeaidd (EMFF)** newydd – y ddull ariannol ar gyfer cefnogi diwygio'r polisi pysgodfeydd cyffredin ar gyfer y cyfnod 2014-2020, gyda chyllideb o €6.7 biliwn.

Yn gyffredinol, bwriad y diwygiadau yw **moderneiddio a symleiddio'r polisi, gan wneud pysgota yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol**. Mae hyn yn golygu ceisio atal gorbysgota; gosod cyfleoedd pysgota yn seiliedig ar gyngor gwyddonol; sicrhau cyflenwad bwyd sefydlog, diogel ac iachus ar gyfer y tymor hir; dod â ffyniant newydd i'r sector pysgota, rhoi terfyn ar y ddibyniaeth ar gymorthdaliadau a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a thyfiant mewn ardaloedd arfordirol.

Yn fwy penodol, mae'r Comisiwn yn cynnig:

- **Dull rheoli amlflwydd yn seiliedig ar ecosystemau:** cyflwyno cynlluniau amlflwydd i sefydlu'r dull hwn.
- **Gwahardd yr arfer o daflu pysgod yn ôl i'r môr** (caiff 23 y cant o bysgod a gaiff eu dal eu taflu yn ôl i'r môr): cyflwyno gofyniad i lanio'r holl bysgod a gaiff eu dal gyda therfynau amser penodol er mwyn ei gyflwyno (yn dibynnu ar y math o bysgodyn) rhwng 2014 a ddiwedd 2015.
- **Cefnogaeth ar gyfer pysgodfeydd ar raddfa fach:** bydd y cynigion yn ymestyn tan 2022 hawl yr Aelod-wladwriaethau i gyfyngu ar bysgota mewn parth o fewn 12 môr-filltir i'r arfordir ac yn eithrio pysgodfeydd ar raddfa fach rhag y cynlluniau cwotâu pysgota trosglwyddadwy.
- **Gwell llywodraethu drwy ranbartholi:** symud i ffwrdd o ddull o'r brig i lawr tuag at fwy o ddatganoli wrth ddarparu diwygiadau a'u rhoi ar waith. Canolbwyntir ar strategaeth (amcanion, targedau, isafswm y safonau a'r canlyniadau cyffredin ac amserlenni ar gyfer cyflawni) ar lefel yr UE. Yr Aelod-wladwriaeth (neu lefel priodol o lywodraeth e.e. y lefel ranbarthol) fydd yn gyfrifol am eu rhoi ar waith. Ehangir rôl y Cynghorau Ymgynghorol[2] ar y lefel rhanbarthol.
- **Sicrhau bod pysgota'n broffidiol:** creu system o gyfranddaliadau trosglwyddadwy (consesiynau) sy'n rhoi'r hawl i berchnogion gael cyfran o'r dyraniad pysgota cenedlaethol bob blwyddyn, gyda'r bwriad o leihau gorgapasiti'r fflyd o dan arweiniad y diwydiant.
- **Datblygu dyframaethu cynaliadwy:** Yr Aelod-wladwriaethau i baratoi cynlluniau strategol cenedlaethol ar gyfer 2014-2020 gan ganolbwyntio ar gystadleurwydd economaidd y sector ac arallgyfeirio; sefydlu cyngor ymgynghorol

[1] Gweler gwefan y **Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bysgodfeydd** i gael y manylion yn llawn.

[2] Cyflwynwyd y Cynghorau Ymgynghorol yn niwygiadau 2002 i annog mwy o weithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid ar lefel "ranbarthol" – er, yn y cyd-destun hwn, roedd rhanbarthol yn golygu ardaloedd morol fel dyfroedd gogledd-orllewinol y mae Cymru'n rhan ohonynt.

newydd ar gyfer dyframaethu.

- **Polisi marchnad newydd - grymuso'r sector a sicrhau bod defnyddwyr yn cael mwy o wybodaeth**.
- **Offeryn ariannol modern ac wedi'i addasu (EMFF gyda chyllideb o €6.7 biliwn):** bydd taliad yn amodol ar gydymffurfio â rheolau (gan gynnwys y potensial i gosbi Aelod-wladwriaethau) .
- **Cymryd cyfrifoldeb ar y lefel ryngwladol.**

## Cyd-destun y cynnig

*I gael trosolwg cynhwysfawr o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ei hanes, y diwygiadau amrywiol a gyflwynwyd iddo, a chefndir y diwygiadau presennol, darllenwch y papur ymchwil a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ym mis Medi 2010*[3].

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw polisi'r UE ar gyfer rheoli pysgodfeydd a dyframaethu. Cafodd ei gyflwyno ym 1970 ac mae wedi datblygu ers hynny. Cyflwynwyd diwygiadau amrywiol fel ymateb i bryderon/heriau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am ddrafftio deddfwriaeth yr UE ynghylch pysgodfeydd, tra bod Aelod-wladwriaethau unigol yn gyfrifol am weithredu a rheoli'r polisi pysgodfeydd.

Y tro diwethaf i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin gael ei ddiwygio oedd yn 2002. Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno nad yw diwygiadau 2002 wedi cyflawni eu hamcanion o wneud sector pysgodfeydd Ewrop yn fwy cynaliadwy. Felly, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn paratoi ar gyfer diwygio'r polisi, a bydd hyn yn dod yn weithredol o 2013 ymlaen.

Mae'r polisi yn parhau i fod yn destun beirniadaeth.

Mae llawer yn credu ei fod wedi bod yn aflwyddiannus o ran mynd i'r afael â gorbysgota a gwella hygrededd economaidd y diwydiant pysgota Ewropeaidd, er gwaethaf y diwygiadau a gyflwynwyd yn y 1990au a 2002 a'r Gronfa Bysgodfeydd Ewropeaidd a gafodd ei chreu ar gyfer 2007-2013.

Yn 2009, lansiodd y Comisiwn ddadl gyhoeddus ar y ffordd y caiff pysgodfeydd yr UE eu rheoli drwy gyhoeddi **Papur Gwyrdd ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** a oedd yn amlinellu'r heriau y mae pysgodfeydd Ewrop yn eu hwynebu. Cyfrannodd rhanddeiliaid o'r DU a Chymru i'r ymgynghoriad hwn (gweler yr adrannau isod), a chyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ar hyn ym mis Ebrill 2010[4]

Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi ymgymryd â gwaith pellach, drwy Gomisiynydd newydd yr UE dros bysgodfeydd, i baratoi ar gyfer lansio'r cynigion ar gyfer diwygio. Mae'r Comisiwn wedi datgan casgliadau'r gwaith hwn yn glir.

## Perthnasedd i Gymru

Mae'r gwaith o lywodraethu, rheoli, a chefnogi pysgodfeydd o fewn dyfroedd tiriogaethol Cymru wedi'i ddatganoli'r llwyr ac mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am weithredu polisi pysgodfeydd yr UE o fewn y dyfroedd hynny. Er bod dyfroedd tiriogaethol Cymru ond yn ymestyn 12 môr-filltir o'r arfordir, creodd *Gorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010* barth pysgodfeydd newydd[5]. Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn awr yn gyfrifol am reoli pysgodfeydd hyd at ei ffin orllewinol ag Iwerddon.[6] Cyn hynny, rheolwyd unrhyw ardal rhwng y terfyn 12 môr-filltir a'r ffin diriogaethol Brydeinig gan Defra.

---

[3] **Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, Medi 2010**

[4] COM(2009)163: Papur Gwyrdd ar adolygu'r Polisi Pysgodfeydd Cyrffredin a SEC(2010)428: canlyniadau'r ymgynghoriad – gweler gwefan y **Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros bysgodfeydd**

[5] ***Gorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010*** (Saesneg yn unig)

[6] Ceir map o Barth Pysgodfeydd Cymru ar dudalen 49 o bapur y Gwasanaeth Ymchwil ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin **yma.**

Yn dilyn pasio *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009,* trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reoleiddio a rheoli pysgodfeydd o bwyllgorau pysgodfeydd morol rhanbarthol i Lywodraeth Cymru sydd yn awr yn llwyr gyfrifol am reoleiddio a rheoli'r diwydiant yng Nghymru.[7]

Cyhoeddwyd Strategaeth Pysgodfeydd yng Nghymru yn 2008[8] a'r cynllun gweithredu yn 2009.[9] Bwriad y strategaeth yw datblygu sector pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio yn bennaf ar y sector pysgodfeydd ar raddfa fach.

Mae 410 o bysgotwyr masnachol yng Nghymru sy'n gweithio'n rheolaidd, a 585 o bysgotwyr sy'n pysgota'n rhan amser. O blith y 500 o longau a gofrestrwyd i bysgota o Gymru, mae 450 ohonynt yn llai na 10 metr o hyd ac yn addas i'w defnyddio i bysgota yn y dydd yn unig. Yn 2009, amcangyfrifwyd mai gwerth y pysgod o'r holl longau o'r DU yng Nghymru oedd £16.6 miliwn.[10]

Darperir arian Ewropeaidd ar gyfer y sector bysgodfeydd yng Nghymru drwy Gronfa Bysgodfeydd Ewrop. Caiff penderfyniadau ar ddyrannu'r arian eu gwneud ar sail rhaglenni gweithredol a gyflwynir gan yr Aelod-wladwriaethau. Ar gyfer y cyfnod 2007-2013, cafodd y DU £97 miliwn. Cyfeirir traean o'r arian hwn at ranbarthau 'cydgyfeirio' tra bod y gweddill ar gael i'r holl ardaloedd. O'r cyfanswm o £97 miliwn, cafodd Cymru £12 miliwn, yr Alban £39 miliwn, Lloegr £34 miliwn a Gogledd Iwerddon £13 miliwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth i gwmnïau pysgota o Gymru mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys eu helpu i gymryd rhan mewn ffeiriau masnach Ewropeaidd a rhyngwladol, fel Sioe Bwyd Môr Ewrop ym Mrwsel. Roedd pump o gwmnïau – Bangor Mussel Producers Ltd, Selwyn's Penclawdd Seafoods, Anglesey Sea Bass Selonda UK, The Lobster Pot o ogledd Cymru a Bay Seafoods o Ynys Môn – ymhlith 1600 o gwmnïau a oedd yn arddangos eu cynnyrch yno, gan ddenu prynwyr a gwerthwyr o dros 140 o wledydd[11].

Ar 14 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, er mwyn rhoi modd i randdeiliaid o Gymru ymgysylltu â'r trafodaethau ym Mrwsel.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

***Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol (ME) dros yr wythnosau nesaf yn nodi ei hymateb i'r cynigion ar gyfer diwygio. Caiff yr adran hon ei diweddaru yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr ME newydd yn datblygu safbwynt Llywodraeth y DU mewn ymateb i'r ymgynghoriad i ddyfodol diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, a cheir crynodeb o'r wybodaeth am hynny isod.***

Paratôdd Llywodraeth y DU Femorandwm Esboniadol fel ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn 2009. Yn dilyn hyn, cafwyd gohebiaeth rhwng y Gweinidog dros bysgodfeydd a'r pwyllgorau perthnasol yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar eu gwaith craffu ar yr adolygiad o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin [12]. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ymateb i'r ymgynghoriad a chyflwynwyd ymatebion ar wahân gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Thŷ'r Arglwyddi [13].

Mae Llywodraeth y DU yn rhannu uchelgais y Comisiwn ar gyfer diwygio radical i sicrhau pysgod iach, diwydiant

[7] ***Marine and Coastal Access Act 2009***
[8] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Pysgodfeydd Cymru,*** 2008
[9] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Gweithredu,***2009
[10] Y Sefydliad Rheoli Morol, ***United Kingdom Sea Fisheries Statistics 2009,*** 2010

[11] Gweler erthygl **Wales Online 8 Mehefin 2011**
[12] Gweler gwefan **Memorandwm Ewropeaidd Llywodraeth y DU**
[13] Gweler **gwefan y Comisiwn Ewropeaidd**

pysgota ffyniannus ac amgylchedd morol iach. Yn fwy penodol [14]:

- **Gwneud penderfyniadau mewn ffordd fwy syml a datganoledig:** datganoli rheoli dydd-i-ddydd i'r bobl sydd agosaf at y pysgodfeydd, gan gynnwys pysgotwyr.
- **Disodli'r system anhyblyg bresennol ar gyfer cwotâu a sefydlu dull mwy hyblyg/ymatebol:** rhoi mwy o gyfrifoldeb i bysgotwyr, fel system o hawliau/credydau i ddefnyddwyr i hwyluso cynllunio yn y tymor hirach.
- **Cydnabod pwysigrwydd cymdeithasol /diwylliannol pysgota i gymunedau bach (ac anghysbell):** cynnig dulliau o ddiogelu busnesau pysgota bach i'w galluogi i addasu/ffynnu a'u gwarchod rhag cystadleuawyr trachwantus.
- **Lleihau nifer y pysgod a gaiff eu taflu yn ôl i'r môr drwy osod rhwymedigaethau gorfodol ar Aelod-wladwriaethau mewn perthynas â'r pysgod a gaiff eu talu yn ôl ganddynt.**
- **Cyflawni gwell integreiddio rhwng pysgodfeydd a pholisïau morol eraill.**

Yn dilyn cyhoeddi'r cynigion mwyaf diweddar, dywedodd Richard Benyon, Gweinidog y DU dros bysgodfeydd mai ei brif flaenoriaethau yw:

- diwygio'r polisi yn sylweddol, gyda llai o reoli o'r brig i lawr o Frwsel;
- dileu'r arfer o daflu pysgod yn ôl i'r môr;
- rheoli pysgodfeydd mewn modd datganoledig gyda mwy o hyblygrwydd rhanbarthol; a
- gwell marchnata a chodi ymwybyddiaeth ynghylch cynhyrchion o bysgodfeydd cynaliadwy.[15]

Mae'r Alban wedi tueddu i arwain trafodaethau ar ddiwygio'r polisi yn y gorffennol oherwydd maint ei diwydiant pysgota masnachol. Mae'r pysgod a gaiff eu glanio yn yr Alban werth tua £351.5 miliwn i economi'r Alban. Yn Lloegr, glaniwyd gwerth £131 miliwn o bysgod yn 2009 a glaniwyd gwerth £19.4 miliwn yng Ngogledd Iwerddon.[16]

Ymatebodd **Llywodraeth yr Alban** i'r cynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn gyhoeddus ar 14 Gorffennaf[17], gan groesawu'r symudiad tuag at osod gwarchod stociau pysgota wrth wraidd y diwygio ond gan hefyd fynegi pryderon ynghylch symud at wahardd yr arfer o daflu pysgod yn ôl i'r môr yn llwyr. Dywedodd y gellid edrych ar fesurau eraill i gyflawni'r amcan o ddileu'r arfer hwn. Cyfeiriodd hefyd at fygythiad anferthol sy'n bodoli o fewn y cynigion hyn i'r Alban, sef ehangu cwotâu masnachu rhyngwladol a'r effaith y gallai hyn ei gael ar hawliau pysgota hanesyddol yr Alban. Croesawyd y symud tuag at ranbartholi ond fe'u beirniadwyd am beidio â mynd yn ddigon pell, gan fod Llywodraeth yr Alban am gael mwy o reolaeth dros ei physgodfeydd.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyrdd yn 2009. Mae'n canolbwyntio ar bryderon pysgotwyr ar raddfa fach, yn wahanol i Lywodraeth y DU sy'n canolbwyntio ar y fflyd pysgota masnachol ar raddfa fawr. Y brif flaenoriaeth ar gyfer Cymru yn y diwygiadau nesaf yw sefydlu dull gwahanol ar gyfer pysgota arfordirol ar raddfa fach, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o arferion pysgota yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu yn benodol am effaith llongau o Aelod-wladwriaethau eraill a'u hawliau hanesyddol ar gynaliadwyedd cymunedau arfordirol Cymru.

[14] Cafwyd y wybodaeth hon o **lythyr dyddiedig 31 Awst 2010** a anfonwyd gan Is-ysgrifennydd y DU dros yr Amgylchedd Naturiol a Physgodfeydd at Gadeirydd Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin
[15] Datganiad i'r wasg gan Defra, ***Richard Benyon responds to Common Fisheries Policy reform Proposals***, 13 Gorffennaf 2011
[16] Y Sefydliad Rheoli Morol, ***United Kingdom Fisheries Statistics 2009***, 2010
[17] Gweler **erthygl ar wefan WiredGov**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn un o'r nifer o randdeiliaid sy'n galw am ddull rhanbarthol o reoli pysgodfeydd, yn enwedig o ran y rhanbarth pysgodfeydd mewnforol. Mae hefyd yn argymell asesiad o bysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau, er mwyn sicrhau bod mesurau i reoli pysgodfeydd yn arwain at arferion pysgota cynaliadwy.

Dywedodd Dirprwy Weinidog Cymru dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd nad yw wedi dod i farn bendant ynghylch cynigion y Comisiwn eto ond ei fod yn bwriadu gwarchod ardal fewndirol Cymru drwy ddeddfwriaeth ddomestig newydd. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud mai ei flaenoriaethau ar gyfer y sector yw creu diwydiant sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn ecolegol yng Nghymru a mynd i'r afael â'r problemau yn y gadwyn gyflenwi y mae'r diwydiant yng Nghymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

## Hynt y cynigion drwy sefydliadau'r UE

***Caiff yr adran hon ei diweddaru wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen ym Mrwsel a phan ddaw safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE yn glir.***

### Monitro'r cynigion

Caiff diwygiadau i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin eu mabwysiadu drwy'r weithdrefn ddeddfu gyffredin (cyd-benderfyniad), lle mae'n ofynnol bod Cyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop yn cytuno ar y cynigion cyn iddynt ddod yn ddeddfwriaeth yr UE. Gellir dilyn hynt y cynigion drwy broses yr UE o wneud penderfyniadau ar ddwy wefan (gan ddefnyddio cyfeirnod y Comisiwn i nodi hynt pob agwedd ar y pecyn[18]):

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

Nodyn: bydd y tudalennau hyn yn canolbwyntio ar drafodaeth eang ar lefel yr UE ond ni fydd yn cynnwys gwybodaeth benodol ar safbwyntiau/diddordebau y DU/Cymru mewn perthynas â'r cynigion. Byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth hon yn yr adrannau isod.

### Senedd Ewrop:

Y prif bwyllgor ar gyfer y cynigion hyn fydd **y Pwyllgor Pysgodfeydd**. Nid oes dim o Aelodau Cymru o Senedd Ewrop ar y pwyllgor hwn a'r Cadeirydd yw Carmen Fraga Estévez, un o Aelodau Sbaen o Senedd Ewrop, o grŵp Plaid Pobl Ewrop (yr EPP). Cyflwynodd Comisiynydd yr UE dros Bysgodfeydd ei chynigion ar gyfer diwygio i'r Pwyllgor Pysgodfeydd ar 13 Gorffennaf. Ni phenodwyd rapporteurs ar gyfer gwahanol agweddau ar becyn diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin eto, ond disgwylir iddynt gael eu penodi ar ddechrau'r hydref. Caiff y tudalennau hyn eu diweddaru ar ôl i hyn ddigwydd, a chyhoeddir amserlen arfaethedig ar gyfer mabwysiadu adroddiadau yn y Pwyllgor Pysgodfeydd.

### Cyngor y Gweinidogion:

Mae Cyngor yr UE ar Amaethyddiaeth a Physgodfeydd yn arwain ar y cynigion hyn yng Nghyngor y Gweinidogion. Yn y cyfnod cyn diwygio, mae wedi cynnal nifer o drafodaethau â Chomisiynydd yr UE dros bysgodfeydd.

Yn dilyn cyhoeddi'r cynigion, cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol ar y diwygiadau arfaethedig mewn sesiwn gyhoeddus ar 19 Gorffennaf[19]. Er bod y ddadl hon yn dangos bod cefnogaeth ar gyfer amcanion cyffredinol y diwygiadau, daeth safbwyntiau gwahanol i'r amlwg ynghylch amseru a natur y cynigion ar gyfer gwahardd yr arfer o daflu pysgod yn ôl ac ynghylch y cynnig ar gyfer cyfnewid hawliau pysgota neu gonsesiynau. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cynnig ar gyfer rhanbartholi'r polisi pysgodfeydd cyffredin ymhellach.

[18] Sef: COM(2011)416, COM(2011)417, COM(2011)418, COM(2011)424 a COM(2011)426

[19] Gweler **datganiad i'r wasg Cyngor y Gweinidogion**

## Eraill:

Cyhoeddodd **Europeche**[20] ddatganiad i'r wasg yn beirniadu nifer o agweddau ar y cynigion ar gyfer diwygio, gan ddadlau y bydd y mesurau a gynigiwyd yn cael effaith negyddol ar gyflogaeth yn y sector yn y tymor byr a'u bod yn anghymesur ac yn annheg. Yn arbennig, mae'n gwrthwynebu:

- y gostyngiad arfaethedig yng nghyfanswm y dalfeydd a ganiateir a/neu ymdrech bysgota o 25 y cant neu fwy pan nad oes cyngor gwyddonol digonol;
- y targed llym o gyflawni'r nifer fwyaf o bysgod y gellir eu dal yn gynaliadwy mewn perthynas â phob rhywogaeth erbyn 2015;
- a'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel diffyg mesurau economaidd-gymdeithasol yn y cynigion.

Mae nifer o sefydliadau amgylcheddol a chadwraeth eisoes wedi ymateb i'r cynigion:

**World Wildlife Fund (WWF)[21]:**

> "We welcome the talk of 'ensuring sustainable fish stocks' and 'long-term science-based management', but we need to see much more ambition - and an urgent end to wasteful discards and bycatch."

Yn ei ymateb, mae'r WWF hefyd yn galw am gyd-reoli rhanbarthol gwirioneddol o bysgodfeydd.

**BirdLife International[22]:**

> "BirdLife Europe is encouraged by the general direction of the reform proposal, notably the objective to rebuild stocks by 2015, especially through long term plans for fisheries, in seeking to end the wasteful practice of discarding fish, and laying down the principle of basing fisheries management decisions on scientific advice.
>
> However, the reform proposal falls short of providing the framework, tools and safeguards needed to reduce overcapacity of the fleet and guarantee a genuine shift towards ecologically sustainable fisheries."

[20] Sefydliad Ewropeaidd yw Europeche sy'n cynnwys perchnogion llongau, pysgotwyr a chyflogwyr. Erbyn hyn, mae 17 o sefydliadau yn aelodau o'r sefydliad sy'n dod o 11 o wledydd Ewrop. I weld datganiadau i'r wasg gan **Europeche,** ewch i'w wefan.
[21] Gweler **gwefan WWF**
[22] Gweler **gwefan BirdLife**

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**) Swyddfa'r UE, rhif ffôn 0032 2 226 6692, neu Nia Seaton (**Nia.Seaton@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil, rhif estyniad 8987.